Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfarfodydd hybrid

## Canllawiau i drefnwyr

1. Dilynwch ganllawiau Llywodraeth Cymru i drefnu cyfarfod Teams gyda chyfieithu ar y pryd.
    a. Bydd cyfranogwyr wyneb yn wyneb sydd angen clywed cyfieithiad yn defnyddio clustffonau cyfieithu ar y pryd (CAP) a gaiff eu darparu gan y cyfieithydd ac yn cyfrannu fel y byddent fel arfer. Byddant yn clywed cyfraniadau gan gyfranogwyr o bell ac wyneb yn wyneb yn y dull arferol, wedi'u cyfieithu lle bo angen.
    b. Bydd cyfranogwyr o bell sydd angen clywed cyfieithiad yn dewis y sianel gyfieithu ar Teams ac yn cyfrannu fel y byddent fel arfer. Byddant yn clywed cyfraniadau gan gyfranogwyr o bell ac wyneb yn wyneb yn y dull arferol, wedi'u cyfieithu lle bo angen.
    c. Bydd cyfranogwyr o bell sydd ddim yn dewis y sianel gyfieithu yn clywed cyfraniadau cyfranogwyr yn unig, h.y. nid y cyfieithydd.

2. Bydd y cyfieithydd yn ymuno â'r cyfarfod **o bell ac wyneb yn wyneb yn lleoliad y cyfarfod ei hun**.
    a. Bydd y cyfieithydd yn cael ei neilltuo i'r sianel gyfieithu ar Teams a bydd yn siarad i'r meicroffon hwn fel y gall cyfranogwyr o bell glywed.
    b. Bydd y cyfieithydd hefyd yn siarad i mewn i feicroffon y clustffonau CAP yn y lleoliad fel y gall cyfranogwyr wyneb yn wyneb glywed.

**Sylwer:**

- Rhaid i'r cyfarfod ei hun gael ei gynnal mewn ystafell sydd ag offer clywedol/gweledol digonol i alluogi cyfathrebu gyda chyfranogwyr o bell. Gallai hyn fod yn feicroffon ar y ddesg er enghraifft, neu'n ddelfrydol o'r nenfwd er mwyn i bawb ar Teams glywed. Rydyn ni'n argymell Ystafell Microsoft Teams.
- Bydd yn rhaid i'r cyfieithydd naill ai fod mewn bwth gwrthsain neu mewn ystafell ar wahân er mwyn cyfieithu i'r clustffonau CAP ac i Teams ar yr un pryd. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i'r cyfieithydd ddefnyddio llais uchel yn hytrach na sibrwd ac felly, pe bai'r cyfieithydd yn yr un ystafell, byddai'r atsain yn effeithio ar bawb.